**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithiol drwy Zoom ar ddydd Mawrth, 24 Mawrth 2026**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 26 Mawrth 2026. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 2 Ebrill 2026. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Mawrth, 7 Ebrill 2026.

**Presennol**: Y Cynghorwyr Gary Pritchard (Arweinydd) (Cadeirydd), Neville Evans, Carwyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Ieuan Williams a Robin Williams.

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Jeff Evans, Kenneth Hughes, Derek Owen, Dylan Rees, Keith Roberts.

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones

(10:00 y. b. tan 10:50 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2026 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i** |

| | |
|---|---|
| | **diweddaru am y cyfnod Ebrill i Dachwedd 2026 gyda'r newidiadau a nodwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen llaw.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 3, 2025/26**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd derbyn adroddiad monitro'r cerdyn sgorio ar gyfer Chwarter 3 2025/26 a nodi'r meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth a'r gwasanaeth perthnasol yn eu harchwilio er mwyn eu rheoli a sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol. Roedd y meysydd hyn yn ymwneud â Gofal Cymdeithasol a Llesiant (ail-gyfeirio plant o fewn 12 mis); Tai (ail-osod eiddo gwag a gwireddu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl), yr Economi (nifer y contractau angori blynyddol ac archwilio busnesau risg uchel i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth hylendid bwyd), Newid Hinsawdd (ailgylchu gwastraff o'r cartref) ac Iechyd Cyngor Cyfan (ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn unol â'r amserlen).** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Adnabod a mynd i'r afael â meysydd o fewn y Cyngor sy'n tanberfformio.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 7 **Fframwaith ar gyfer Rhyddhad Trethi Busnes Dewisol - Elusennau a Sefydliadau Dielw**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Cymeradwyo ymestyn y polisi cyfredol am gyfnod o flwyddyn, hyd at 31 Mawrth 2027.**<br>• **Bod y Cyngor yn ymgynghori gyda'r sefydliadau hynny sy'n derbyn rhyddhad drwy'r polisi ar hyn o bryd i benderfynu ar y polisi o fis Ebrill 2027 ymlaen.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Gohirio gweithredu polisi newydd er mwyn osgoi tarfu pellach yn ystod cyfnod aibrisio trethi annomestig 2026 ac i ganiatau amser i ddarganfod cost y polisi yn 2026/27.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Datganiad o ddiddordeb personol yn unig gan y Cynghorwyr Neville Evans, Gary Pritchard a Ieuan Williams** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 8 **Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2026-2056**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2026-2056 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn sicrhau Lwfans Atgyweiriadau Mawr Llywodraeth Cymru a sicrhau yr hyfywdra ariannol hirdymor sydd ei angen i gynnal, gwella ac ymestyn stoc dai'r Cyngor dros y 30 mlynedd nesaf.** |

| | |
|---|---|
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Cau Allan y Wasg a'r Cyhoedd**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, i wahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y golygai ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y caiff ei diffinio ym mharagraffau 12, 13 a 15 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth all arwain at adnabod gweithwyr penodol a phrosesau cyflogaeth sensitif.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Mewnoli'r Gwasanaeth ADY a Chynhwysiant ar Ynys Môn**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Cymeradwyo'r strwythur arfaethedig (Opsiwn 4 yn y Gwerthusiad Opsiynau – Atodiad 3) ym Môn er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth i ddysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol (mae'r cyfrifoldebau hyn yn cael eu nodi yn y Ddeddf ALNET 2018, y Côd Anghenion** |

| | |
|---|---|
| | **Dysgu Ychwanegol 2021 a Rheoliadau ADY 2021) a sefydlu gwasanaeth canolog newydd**<br>• **Rhoi pwerau dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 mewn ymgynghoriad â'r Deilydd Portffolio Addysg, Deilydd Portffolio Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd a'r Deilydd Portffolio Cyllid os bydd effaith ariannol, er mwyn gwneud newidiadau yn y strwythur mewn dull amserol yn dilyn yr ymgynghoriad (gall hyn gynnwys gweithio mewn partneriaeth gyda chorff/cyrff allanol er mwyn cyrraedd y ddarpariaeth angenrheidiol os bydd angen).**<br>• **Bod diweddariad ar gynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ymhen chwe mis.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn cadarnhau'r cynigion ar gyfer mewnoli'r Gwasanaeth ADY a Chynhwysiant ar Ynys Môn** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |